OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1041

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

## RHAN 1

### Safonau dŵr

**Defnyddio cynhyrchion neu sylweddau mewn cyflenwadau dŵr preifat a threfniadau diheintio**

**5.**—(1) Ni chaiff unrhyw gynnyrch neu sylwedd a ddefnyddir wrth baratoi neu ddosbarthu cyflenwad dŵr preifat, neu amhurdebau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion neu sylweddau o'r fath, fod yn bresennol mewn dŵr yn y man defnyddio ar lefelau a fyddai'n ei wneud yn afiachus neu'n peri perygl posibl i iechyd dynol.

(2) Pan fo diheintio yn rhan o'r broses o baratoi neu ddosbarthu dŵr, rhaid i'r person perthnasol—

(a) cynllunio, gweithredu a chynnal y broses ddiheintio er mwyn cadw presenoldeb sgil-gynhyrchion diheintio mor isel â phosibl heb beryglu effeithiolrwydd y broses ddiheintio;

(b) sicrhau y cynhelir effeithiolrwydd y broses ddiheintio;

(c) cadw cofnodion o'r gwaith cynnal a monitro a gyflawnir er mwyn gwirhau effeithiolrwydd y broses ddiheintio; a

(d) cadw copïau o'r cofnodion hynny ar gael i'r awdurdod lleol edrych arnynt, am gyfnod o 5 mlynedd.